OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 2963 (Cy.280)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol) (Pensiynau) (Cymru) 2003

Wedi'u gwneud - -	*18 Tachwedd 2003*
Yn dod i rym - -	*1 Ionawr 2004*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 18(3A), 3(D) a 3(G) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989(**1**) ac a freiniwyd bellach yn y Cynulliad Cenedlaethol yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999(**2**) i'r graddau y maent yn arferadwy yng Nghymru:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol) (Pensiynau) (Cymru) 2003 a deuant i rym ar 1 Ionawr 2004.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn —

ystyr "aelodau" ("*members*") yw cynghorwyr awdurdod gan gynnwys maer etholedig awdurdod sy'n gweithredu trefniadau gweithrediaeth gwahanol ar ffurf sy'n cynnwys maer etholedig;

ystyr "awdurdod" ("*authority*") yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru;

ystyr "lwfansau cyfrifoldeb arbennig" ("*special responsibility allowances*") yw lwfansau fel y'u diffinnir yn rheoliad 8 o Reoliadau 2002;

ystyr "lwfansau sylfaenol" ("*basic allowances*") yw lwfansau fel y'u diffinnir yn rheoliad 7 o Reoliadau 2002;

(**1**) p.42. Mewnosodwyd is-adrannau (3A), (3D) a (3G) o adran 18 gan adran 99 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (p.22).
(**2**) O.S. 1999/672.

ystyr "Rheoliadau 2002" ("*the 2002 Regulations*") yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) (Cymru) 2002(**3**).

Pensiynau

3.—(1) Caiff awdurdod —

(a) penderfynu pa aelodau o'r awdurdod sydd â'r hawl i bensiynau yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol 1997(**4**); a

(b) darparu mewn perthynas â'r aelodau hynny y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff (a) fod lwfansau sylfaenol a lwfansau cyfrifoldeb arbennig yn cael eu trin fel symiau y mae pensiynau yn daladwy mewn perthynas â hwy.

(2) Rhaid i awdurdod, wrth iddo wneud unrhyw benderfyniad yn unol â'r rheoliad hwn, wneud hynny yn unig ar gyfer aelod sydd wedi'i gymeradwyo'n gyntaf gan Banel Taliadau Annibynnol Cymru fel un sy'n gymwys i gael hawl o'r fath, o dan reoliad 5.

Panel Taliadau Annibynnol Cymru

4.—(1) Rhaid i Gynulliad Cenedlaethol Cymru benodi panel taliadau annibynnol dros dro, a elwir Panel Taliadau Annibynnol Cymru yn unol â'r Rheoliad hwn ar gyfer pob awdurdod.

(2) Rhaid i Banel Taliadau Annibynnol Cymru fodoli am gyfnod o chwe mis gan ddechrau o ddyddiad ei sefydlu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

(3) Rhaid i Banel Taliadau Annibynnol Cymru gynnwys o leiaf dri aelod a benodwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan gynnwys un aelod a benodwyd yn gadeirydd.

(4) Ni chaiff unrhyw un o'r aelodau a benodir yn unol â pharagraff (3) fod —

(a) yn aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, Ty'r Cyffredin, Ty'r Arglwyddi, Senedd Ewrop, awdurdod, cyngor tref neu gyngor cymuned; neu

(b) wedi'i anghymhwyso(**5**) rhag bod neu ddod yn aelod o awdurdod ac eithrio fel swyddog sy'n cael ei gyflogi gan awdurdod lleol.

(5) Rhaid i Gynulliad Cenedlaethol Cymru dalu'r treuliau y mae Panel Taliadau Annibynnol Cymru yn eu tynnu wrth gyflawni ei swyddogaethau a chaiff dalu aelodau'r panel y lwfansau neu'r treuliau y bydd yn penderfynu arnynt.

(6) Rhaid i Gynulliad Cenedlaethol Cymru drefnu bod cymorth gweinyddol priodol ar gael i Banel Taliadau Annibynnol Cymru.

Argymhellion Panel Taliadau Annibynnol Cymru

5.—(1) Rhaid i Banel Taliadau Annibynnol Cymru lunio adroddiad mewn perthynas â phob awdurdod, gan gyflwyno argymhellion ynghylch pa aelodau awdurdod a ddylai gael hawl i bensiynau yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol 1997.

(2) Caiff Panel Taliadau Annibynnol Cymru, wrth gyflawni ei swyddogaethau o dan baragraff (1), ofyn i unrhyw gorff neu berson am wybodaeth neu gyngor.

(3) Caiff Panel Taliadau Annibynnol Cymru gyflwyno gwahanol argymhellion ynglyn â phob un o'r awdurdodau y mae'n arfer ei swyddogaethau mewn perthynas â hwy.

(**3**) O.S. 2002/1895 (Cy.196).
(**4**) O.S. 1997/1612 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1997/1613, O.S. 1998/1238, O.S. 1999/1212, O.S. 1999/3438, O.S. 2000/ 3025, O.S. 2001/3649, O.S. 2001/ 770, O.S. 2001/1481, O.S. 2001/2401, O.S. 2002/206, O.S. 2002/819, O.S. 2003/2249. Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i Gymru.
(**5**) *Gweler* Adran 80 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (p.70) ac adrannau 79 a 83(11) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.